# CYNGOR CYMUNED LLANWINIO COMMUNITY COUNCIL

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Llanwinio ar nos Fercher 29ain o Orffennaf 2020 am 8.00yh o bell drwy Zoom.

**PRESENNOL:** Cyng W Evans, D Lewis, H James, J Phillips, R Gallie, G Evans, J Lewis (CSC) a K Bowen (clerc).

**YMDDIHEURIADAU:** Dim

**COFNODION:** Darllenwyd cofnodion cyfarfod 18fed o Fawrth a derbyniwyd yn gywir.

**DATGANIADAU O DDIDDORDEB:** Dim

**MATERION YN CODI:**

Nid yw newid y llofnodwyr banc wedi eu gwblhau eto. Fe gaiff ei wneud cyn gynted a phosibl.

Fe fydd y tir cyngor a gafodd ei ddychwelyd i'r cyngor yn cael ei gynnig i un o'r tenantiaid arall am ddim tan Mawrth 2021 i arbed y porfa rhag tyfu rhy hir ac i gadw chwyn i lawr.

**ADRODDIAD PCA:**

Penderfynodd pob cynghorwr cymunedol i optio allan o dderbyn y lwfans gorfodol o £150.00. Cynghorwyr i lenwi ffurflen datgeliad optio allan cyn gynted a phosibl.

**ARCHWILIAD MEWNOL:**

Mae'r archwiliad mewnol wedi ei gwblhau a adroddiad wedi ei dderbyn. Nid oedd yna unrhyw faterion oedd eisiau ymateb iddo ond fe wnaeth yr archwilydd mewnol argymell y dylai'r cyngor ystyried defnyddio ystorfa cwmwl ar gyfer ffeiliau electronig yn ychwanegol i'r ystorfa allanol sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd. Derbyniodd y Cyngor yr argymhelliad. Roedd y clerc wedi danfon dogfennau'r adroddiad blynyddol am y flwyddyn yn gorffen Mawrth 31 2020 allan o flaen y cyfarfod. Cafodd y cyfrifon a'r Datganiad Llywodraeth Blynyddol ei cymeradwyo gan y Cyngor.

**GOHEBIAETH:**

Penderfynodd y cynghorwyr i wrthod cynnig BT i ddileu y ffôn cyhoeddus yn Llanwinio. Clerc i gysylltu a BT.

Derbyniwyd cais am gymorth ariannol oddi wrth Tarian Cymru i brynu PPE i weithwyr iechyd Cymreig. Cytunodd y Cyngor i gyfrannu £150.00.

**DERBYNIADAU:**

| | |
|---|---|
| Bailey – rhent tir | £10.00 |
| Robinson – rhent tir | £313.00 |

| | |
|---|---|
| H James – rhent tir | £407.00 |
| G James – rhent tir | £869.00 |
| Western Power wayleave | £38.56 |
| CSC – rhandaliad 1af praesept | £2666.66 |
| HMRC – ad-daliad TAW | £571.02 |
| GVO Wind No. 39 – lles cymunedol | £3098.26 |

**BILIAU:**

| | |
|---|---|
| ICO – tâl adnewyddu cofrestriad | £35.00 |
| DM Payroll Services – gwasanaeth cyflogres 2020/21 | £61.75 |
| Vision ICT – cynnal gwefan a chynorthwy | £300.00 |
| Vision ICT – tâl eilflwydd am .gov.uk domain | £66.00 |
| BHIB Ltd – yswiriant cyngor 01/06/20 – 31/05/21 | £623.02 |
| Tarian Cymru – rhodd | £150.00 |
| SSE – trydan i'r neuadd gymunedol 25/01/20 – 04/05/21 | £38.73 |
| R A Davies – archwiliad mewnol 2019/20 | £57.60 |

**CYNLLUNIO:** Dim

**U.F.A.**

Derbyniwyd e-bost oddi wrth Cyng P Walton i gadarnhau ei fod wedi ymddiswyddo fel cynghorwr cymuned gan ei fod wedi symud i ffwrdd o'r ardal. Cytunodd y cyngor i ddanfon llythyr ffurfiol o ddiolch i Mr Walton i gydnabod ei flynyddoedd o wasanaeth i'r gymuned. Clerc i gysylltu a CSC i ddechrau'r broses o lenwi'r sedd wag.

Clerc i gysylltu a CSC i drefnu glanhau'r afon Sien yn Cwmbach.

Gan fod yna ddim rhagor o fusnes fe wnaeth y Gadair ddiolch i bawb oedd wedi mynychu a datganodd fod y cyfarfod ar gau.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Fercher 16eg o Fedi 2020 am 8.00yh gan gynnwys y CCB. Fe fydd y lleoliad yn dibynnu ar y rhwystrau Covid 19 mewn grym ar y pryd ac fe fydd naill ai yn gyfarfod o bell neu yn Neuadd Gymuned Llanwinio.**